Hysbysiad Preifatrwydd yr Ymgeisydd

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig yn gorff corfforaethol ac mae wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Dyma rif y cwmni - 08719645, ac mae ei swyddfa gofrestredig yn 2il Lawr, 3 Sgwâr y Cynulliad, Cei Britannia, Caerdydd CF10 4PL (Cwmni).

Swyddog Diogelu Data: Ian Bevan, Rheolwr Rhaglen a Chydymffurfiaeth

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (yr Hwb) yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi fel rhan o unrhyw broses recriwtio. Mae'r Hwb wedi ymrwymo i fod yn dryloyw o ran sut mae'n casglu ac yn defnyddio'r data hynny, ac o ran sut mae'n bodloni ei rwymedigaethau diogelu data yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Deddf Hawliau Dynol y DU 1998, Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UE) 2016/679. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn ystod y broses recriwtio ond yn cael ei defnyddio er mwyn symud eich cais ymlaen neu i fodloni gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol pan fo angen.

Pa wybodaeth mae'r sefydliad yn ei chasglu?

Mae'r Hwb yn casglu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch chi. Mae hyn yn cynnwys:

- eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt, gan gynnwys eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn, eich dyddiad geni a'ch rhywedd;
- manylion eich cymwysterau, eich sgiliau, eich profiad a'ch hanes cyflogaeth, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen, gyda chyflogwyr blaenorol a'r sefydliad;
- gwybodaeth am eich taliadau cydnabyddiaeth, gan gynnwys eich hawl i gael buddion fel pensiynau neu sicrwydd yswiriant;
- gwybodaeth am eich cenedligrwydd a'ch hawl i weithio yn y DU;
- gwybodaeth am gyflyrau meddygol neu iechyd, gan gynnwys a oes gennych chi anabledd y mae gofyn i'r sefydliad wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer.

Yn ystod y broses recriwtio bydd y Hwb hefyd yn gofyn i chi am atebion i gwestiynau sy'n berthnasol i'r rôl rydych wedi gwneud cais amdani.

Bydd yr Hwb yn gofyn am fanylion canolwyr y byddwn yn cysylltu â nhw os byddwn yn gwneud cynnig swydd amodol.

Rhaid i chi gwblhau gwiriadau cyn-cyflogi yn llwyddiannus i symud ymlaen i gynnig cyflogaeth terfynol gyda'r Hwb. Os byddwn yn gwneud cynnig terfynol o gyflogaeth, byddwn hefyd yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth unwaith y byddwch wedi derbyn y cynnig, megis eich manylion banc.

Mae'r Hwb yn casglu'r wybodaeth hon mewn amryw o ffyrdd. Er enghraifft, gall data gael eu cynnwys ar ffurflenni cais, CVs neu grynodebau, gellir cael gafael ar ddata ar eich pasbort neu ddogfennau adnabod eraill, neu mae'n bosibl eu casglu mewn cyfweliadau neu fath arall o asesiadau, gan gynnwys profion ar-lein.

Bydd yr Hwb hefyd yn casglu data personol amdanoch gan drydydd partïon, fel geirdaon gan gyn-gyflogwyr, gwybodaeth gan ddarparwyr archwiliadau i gefndir cyflogaeth a gwybodaeth o wiriadau cofnodion troseddol. Dim ond ar ôl cynnig swydd i chi y bydd yr Hwb yn gofyn am wybodaeth gan drydydd partïon a bydd yn rhoi gwybod i chi ei fod yn gwneud hynny.

Bydd data'n cael eu storio mewn amryw o wahanol fannau, gan gynnwys ar gofnod eich cais, mewn systemau rheoli Adnoddau Dynol ac ar systemau TG eraill (gan gynnwys e-bost).

Pam mae'r Hwb yn prosesu data personol?

Mae gofyn i'r Hwb brosesu data er mwyn cymryd camau, ar eich cais, cyn ymrwymo i gontract â chi. Mae gofyn iddo brosesu eich data er mwyn ymrwymo i gontract â chi hefyd.

Mewn rhai achosion, mae gofyn i'r Hwb brosesu eich data i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n rhaid gwirio a yw ymgeisydd llwyddiannus yn gymwys i weithio yn y DU cyn iddo ddechrau ei gyflogi.

Mae gan yr Hwb ddiddordeb dilys mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac am gadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data gan ymgeiswyr am swyddi'n caniatáu i'r Hwb reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau pa mor addas yw ymgeisydd i'w gyflogi a phenderfynu pwy mae am gynnig swydd iddo. Mae'n bosibl y bydd gofyn i'r Hwb brosesu data ymgeiswyr am swyddi i ymateb i hawliadau cyfreithiol ac amddiffyn yn erbyn hawliadau o'r fath hefyd.

Pan fydd yr Hwb yn dibynnu ar ddiddordeb dilys fel rheswm dros brosesu data, bydd wedi ystyried a yw hawliau a rhyddidau ymgeiswyr, cyflogeion neu weithwyr yn diystyru'r buddiannau hynny a bydd wedi dod i'r casgliad nad ydynt.

Bydd yr Hwb yn prosesu gwybodaeth am iechyd os bydd angen gwneud addasiadau rhesymol i'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr ag anabledd. Mae hyn er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau ac er mwyn arfer hawliau penodol o ran cyflogaeth.

Pan fydd yr Hwb yn prosesu categorïau arbennig eraill o ddata, fel gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd, crefydd neu gred, oedran, rhywedd neu statws priodasol, gwneir hyn at ddibenion monitro cyfle cyfartal, a rhaid cael caniatâd penodol yr ymgeiswyr. Mae modd i ymgeiswyr dynnu caniatâd yn ôl unrhyw dro drwy gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, Ian Bevan. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys drwy anfon llythyr, drwy anfon e-bost, drwy ffonio ac yn bersonol. Dyma'r rhif ffôn: 02920 467030 a dyma'r cyfeiriad e-bost: FM@lshubwales.com. Os byddwch yn penderfynu ysgrifennu ato, dyma'r cyfeiriad:

Mr Ian Bevan
Swyddog Diogelu Data

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
3 Sgwâr y Cynulliad
Bae Caerdydd
CF10 4PL

Mae'n rhaid i'r Hwb ofyn am wybodaeth am euogfarnau a throseddau ar gyfer rhai swyddi. Pan fydd yr Hwb yn gofyn am yr wybodaeth hon, bydd yn gwneud hynny oherwydd bod hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau ac arfer hawliau penodol o ran cyflogaeth a/neu er mwyn cydymffurfio â gofyniad rheoliadol i sefydlu a yw unigolyn wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon neu wedi ymddwyn yn anonest neu'n amhriodol.

Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yr Hwb yn cadw eich data personol mewn ffeil rhag ofn y bydd cyfleoedd gwaith eraill yn codi yn y dyfodol a allai fod yn addas i chi. Bydd yr Hwb yn gofyn am eich caniatâd cyn y bydd yn cadw eich data ar gyfer y diben hwn, a chewch dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd drwy gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, Ian Bevan. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys drwy anfon llythyr, drwy anfon e-bost, drwy ffonio ac yn bersonol. Dyma'r rhif ffôn: 02920 467030 a dyma'r cyfeiriad e-bost: FM@lshubwales.com. Os byddwch yn penderfynu ysgrifennu ato, dyma'r cyfeiriad:

Mr Ian Bevan
Swyddog Diogelu Data
Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
3 Sgwâr y Cynulliad
Bae Caerdydd
CF10 4PL

Pwy sy'n cael mynediad at ddata?

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol at ddibenion yr ymarfer recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm recriwtio ac Adnoddau Dynol, y cyfwelwyr a fydd yn rhan o'r broses recriwtio, rheolwyr yn y maes busnes lle mae'r swydd wag a staff TG os oes angen cael mynediad at ddata er mwyn cyflawni'r rôl. Mae'r Hwb hefyd yn defnyddio trydydd parti i gynorthwyo gyda'i broses recriwtio. Bydd eich data yn cael ei rannu gyda'n darparwr adnoddau dynol trydydd parti allanol i'w galluogi i gynorthwyo gyda'r broses recriwtio a dethol. Mae gennym gontractau ar waith gyda'n proseswyr data trydydd parti. Mae hyn yn golygu na allant wneud unrhyw beth gyda'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod wedi eu cyfarwyddo i wneud hynny. Ni fyddant yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag unrhyw sefydliad ar wahân i ni. Byddant yn ei ddal yn ddiogel ac yn ei gadw am y cyfnod yr ydym yn cyfarwyddo.

Ni fydd yr Hwb yn rhannu eich data â thrydydd partïon eraill, oni bai fod eich cais am swydd yn llwyddiannus ac y bydd yn cynnig gwaith i chi. Yna, bydd yr Hwb yn rhannu eich data â'ch cyn-gyflogwyr er mwyn cael geirdaon, darparwyr archwiliadau i gefndir cyflogaeth er mwyn cael yr archwiliadau cefndir sy'n angenrheidiol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cael y gwiriadau cofnodion troseddol sylfaenol angenrheidiol.

Ni fydd yr Hwb yn trosglwyddo eich data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Sut mae'r Hwb yn diogelu data?

Mae'r Hwb yn ystyried diogelwch eich data yn fater difrifol. Mae ganddo bolisïau a rheolaethau mewnol ar waith i sicrhau na fydd eich data'n mynd ar goll, yn cael ei ddifrodi'n ddamweiniol, yn cael ei gamddefnyddio na'i ddatgelu ac nad oes unrhyw un yn gallu cael gafael ar eich data heblaw am ein cyflogeion ni wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau'n briodol.

Am ba mor hir mae'r Hwb yn cadw data?

Os na fydd eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, bydd y sefydliad yn cadw eich data mewn ffeil am chwe mis ar ôl i'r broses recriwtio berthnasol ddod i ben. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, neu cyn hynny os byddwch chi'n tynnu eich caniatâd yn ôl, bydd eich data'n cael ei ddinistrio yn y fath fodd na fydd yn bosibl ei ail-greu.

Os bydd eich cais am swydd yn llwyddiannus, bydd data personol a gasglwyd yn ystod y broses recriwtio yn cael ei throsglwyddo i'ch ffeil personél a bydd yn cael ei cadw tra byddwch yn parhau i gael eich cyflogi gennym. Bydd y cyfnodau y bydd eich data'n cael eu cadw'n cael eu cyflwyno i chi mewn hysbysiad preifatrwydd newydd.

Eich hawliau

Fel gwrthrych y data, mae gennych nifer o hawliau. Gallwch wneud y canlynol:

- cael mynediad at a chael gafael ar gopi o'ch data ar gais;
- gofyn i'r Hwb newid data anghywir neu anghyflawn;
- gofyn i'r Hwb ddileu neu roi'r gorau i brosesu eich data, er enghraifft pan nad yw'r data'n angenrheidiol mwyach at ddibenion prosesu;
- gwrthwynebu prosesu eich data pan fydd yr Hwb yn dibynnu ar ei fuddiannau cyfreithlon fel sail gyfreithiol dros brosesu; a
- gofyn i'r Hwb roi'r gorau i brosesu data am gyfnod os yw'r data'n anghywir neu os oes anghydfod ynghylch a yw eich buddiannau'n trechu seiliau cyfreithlon yr Hwb dros brosesu data.

Os hoffech arfer unrhyw rai o'r hawliau hyn, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data, Ian Bevan. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys drwy anfon llythyr, drwy anfon e-bost, drwy ffonio ac yn bersonol. Dyma'r rhif ffôn: 02920 467030 a dyma'r cyfeiriad e-bost: FM@lshubwales.com. Os byddwch yn penderfynu ysgrifennu ato, dyma'r cyfeiriad:

Mr Ian Bevan
Swyddog Diogelu Data
Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
3 Sgwâr y Cynulliad
Bae Caerdydd

CF10 4PL

Os ydych chi'n credu nad yw'r Hwb wedi cydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Dyma gyfeiriad y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
2il Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Beth os nad ydych chi'n darparu gwybodaeth bersonol?

Nid oes rhwymedigaeth statudol na dan gontract arnoch i roi eich data i'r Hwb yn ystod y broses recriwtio. Ond, os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth, mae'n bosibl na all yr Hwb brosesu eich cais yn iawn neu ddim o gwbl. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd amod ynghlwm ag unrhyw swydd a gynigir i chi, sef bod yn rhaid i chi ddarparu geirdaon boddhaol a thystiolaeth o'ch hawl i weithio yn y DU.

Nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i roi gwybodaeth at ddibenion monitro cyfle cyfartal ac os byddwch yn dewis peidio â chynnwys gwybodaeth o'r fath, ni fydd hyn yn effeithio ar eich cais.

Gwneud penderfyniadau awtomataidd

Nid yw prosesau recriwtio yn seiliedig ar wneud penderfyniadau awtomataidd yn unig.

Rwy'n cydnabod fy mod wedi derbyn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

Derbyniwyd gan: _____ **(Ymgeisydd)**

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Candidate Privacy Notice

Life Sciences Hub Wales Limited incorporated and registered in England and Wales with company number 08719645 whose registered office is at 2nd Floor, 3 Assembly Square Britannia Quay, Cardiff CF10 4PL (Company).

Data Protection Officer: Ian Bevan, Programme and Compliance Manager

As part of any recruitment process, Life Sciences Hub Wales (LSHW) collects and processes personal data relating to job applicants. LSHW is committed to being transparent about how it collects and uses that data and to meeting its data protection obligations in accordance with the European Convention on Human Rights, the UK Human Rights Act 1998, the Data Protection Act 2018 and the General Data Protection Regulations (EU) 2016/679. All of the information you provide during the recruitment process will only be used for the purpose of progressing your application or to fulfil legal or regulatory requirements when necessary.

What information does the organisation collect?

LSHW collects a range of information about you. This includes:

- your name, address and contact details, including email address and telephone number, date of birth and gender;
- details of your qualifications and/or education, skills, experience and employment history, including start and end dates, with previous employers and with the organisation,
- information about your remuneration, including entitlement to benefits such as pensions or insurance cover;
- information about your nationality and entitlement to work in the UK;
- information about medical or health conditions, including whether or not you have a disability for which the organisation needs to make reasonable adjustments.

During the recruitment process, LSHW will also ask you for answers to questions relevant to the role you have applied for.

LSHW will request details of referees who we may contact in the event that we make you a conditional job offer.

You must successfully complete pre-employment checks to progress to a final offer of employment with LSHW. If we make a final offer of employment, we will also ask you for further information once you have accepted the offer, such as your bank details.

LSHW collects this information in a variety of ways. For example, data might be contained in application forms, CVs or resumes, obtained from your passport or other identity documents, or collected through interviews or other forms of assessment, including online tests and questionnaires.

LSHW will also collect personal data about you from third parties, such as references supplied by former employers, information from employment background check providers and information from criminal records checks. LSHW will seek information from third parties only once a conditional job offer to you has been made and will inform you that it is doing so.

Data will be stored in a range of different places, including on your application record, in HR management systems and on other IT systems (including email).

Why does LSHW process personal data?

LSHW needs to process data to take steps at your request prior to entering into a contract with you. It also needs to process your data to enter into a contract with you.

In some cases, LSHW needs to process data to ensure that it is complying with its legal obligations. For example, it is required to check a successful applicant's eligibility to work in the UK before employment starts.

LSHW has a legitimate interest in processing personal data during the recruitment process and for keeping records of the process. Processing data from job applicants allows LSHW to manage the recruitment process, assess and confirm a candidate's suitability for employment and decide to whom to offer a job. LSHW may also need to process data from job applicants to respond to and defend against legal claims.

Where LSHW relies on legitimate interests as a reason for processing data, it has considered whether or not those interests are overridden by the rights and freedoms of job applicants, employees or workers and has concluded that they are not.

LSHW processes health information if it needs to make reasonable adjustments to the recruitment process for candidates who have a disability. This is to carry out its obligations and exercise specific rights in relation to employment.

Where LSHW processes other special categories of data, such as information about ethnic origin, sexual orientation, health, religion or belief, age, gender or marital status, this is done for the purposes of equal opportunities monitoring with the explicit consent of job applicants, which can be withdrawn at any time by contacting the Data Protection Officer Ian Bevan. You are able to contact the Data Protection Officer via any method including, by letter, by e mail, by telephone and in person. The telephone number is 02920 467030 or via e mail to FM@lshubwales.com . If you decide to write the address is:

Mr Ian Bevan
Data Protection Officer
Life Sciences Hub Wales
3 Assembly Square

Cardiff Bay
CF10 4PL

LSHW is obliged to seek information about criminal convictions and offences. This is necessary for it to carry out its obligations and exercise specific rights in relation to employment and/or comply with a regulatory requirement to establish whether or not an individual has committed an unlawful act or been involved in dishonesty or other improper conduct.

If your application is unsuccessful, LSHW will keep your personal data on file in case there are future employment opportunities for which you may be suited. LSHW will ask for your consent before it keeps your data for this purpose and you are free to withdraw your consent at any time by contacting the Data Protection Officer, Ian Bevan. You are able to contact the Data Protection Officer via any method including, by letter, by email, by telephone and in person. The telephone number is 02920 467030 or via e mail to FM@lshubwales.com. If you decide to write the address is:

Mr Ian Bevan
Data Protection Officer
Life Sciences Hub Wales
3 Assembly Square
Cardiff Bay
CF10 4PL

Who has access to data?

Your information will be shared internally for the purposes of the recruitment exercise. This includes members of the HR and recruitment team, interviewers involved in the recruitment process, managers in the business area with a vacancy and IT staff if access to the data is necessary for the performance of their roles. LSHW also uses a third-party to assist with its recruitment process. Your data will be shared with our external third-party HR provider to enable them to assist with the recruitment and selection process. We have contracts in place with our third-party data processors. This means that they cannot do anything with your personal information unless we have instructed them to do it. They will not share your personal information with any organisation apart from us. They will hold it securely and retain it for the period we instruct.

LSHW will not share your data with any other third parties, unless your application for employment is successful and it makes you a conditional offer of employment. LSHW will then share your data with former employers to obtain references for you, employment background check providers to obtain necessary background checks and the Disclosure and Barring Service to obtain necessary basic criminal records checks.

LSHW will not transfer your data outside the European Economic Area.

How does LSHW protect data?

LSHW takes the security of your data seriously. It has internal policies and controls in place to ensure that your data is not lost, accidentally destroyed, misused or disclosed, and is not accessed except by our employees in the proper performance of their duties.

For how long does LSHW keep data?

If your application for employment is unsuccessful, the organisation will hold your data on file for 6 months after the end of the relevant recruitment process. At the end of that period or sooner if you withdraw your consent, your data will be destroyed in a manner whereby it cannot be reconstructed.

If your application for employment is successful, personal data gathered during the recruitment process will be transferred to your personnel file and retained during your employment. The periods for which your data will be held will be provided to you in a new privacy notice.

Your rights

As a data subject, you have a number of rights. You can:

- access and obtain a copy of your data on request;
- require LSHW to change incorrect or incomplete data;
- require LSHW to delete or stop processing your data, for example where the data is no longer necessary for the purposes of processing;
- object to the processing of your data where LSHW is relying on its legitimate interests as the legal ground for processing; and
- ask LSHW to stop processing data for a period if data is inaccurate or there is a dispute about whether or not your interests override LSHW's legitimate grounds for processing data.

If you would like to exercise any of these rights, please contact the Data Protection Officer, Ian Bevan. You are able to contact the Data Protection Officer via any method including, by letter, by e mail, by telephone and in person. The telephone number is 02920 467030 or via e mail to FM@lshubwales.com . If you decide to write the address is:

Mr Ian Bevan
Data Protection Officer
Life Sciences Hub Wales
3 Assembly Square
Cardiff Bay
CF10 4PL

If you believe that LSHW has not complied with your data protection rights, you can complain to the Information Commissioner.

The address of the Information Commissioner is:

Information Commissioners Office – Wales
2nd floor
Churchill House
Churchill Way
Cardiff
CF10 2HH

What if you do not provide personal data?

You are under no statutory or contractual obligation to provide data to LSHW during the recruitment process. However, if you do not provide the information, LSHW may not be able to process your application properly or at all. If your application is successful, it will be a condition of any job offer that you provide evidence of your right to work in the UK, sufficient data to enable LSHW to carry out a criminal records check and satisfactory references.

You are under no obligation to provide information for equal opportunities monitoring purposes and there are no consequences for your application if you choose not to provide such information.

Automated decision-making

Recruitment processes are not based solely on automated decision-making.

I acknowledge receipt of this Privacy Notice.

Received by: _____ (Candidate)

Signed: _____

Date: _____